
# Archwilio Effaith


## Blaenoriaeth 2 – Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol


### Hydref 2023


# Canlyniadau Meintiol o'r Arolwg


- Cafwyd 30 o ymatebion i'r arolwg, gyda 28 wedi'u cwblhau'n fyw yng nghyfarfod Rhwydwaith CCDC ar 12 Hydref 2023 a 2 wedi'u cwblhau ar-lein wedyn.
- Gofynnodd cwestiynau 1 a 2 am y ddarpariaeth o hyfforddiant a chymorth gan wasanaethau iechyd a gofal i ddinasyddion Cymru ac i'w gweithlu. Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol bod cymorth yn cael ei ddarparu (C1 – Dinasyddion Cymru yn Cytuno 47%, Anghytuno 27% a Ch2 – Gweithlu'n Cytuno 67%, Anghytuno 13%).
- Roedd y cwestiwn ynghylch gwasanaethau a chynhyrchion digidol iechyd a gofal cymdeithasol yn llai ffafriol, gyda 27% o ymatebwyr yn cytuno a'r un faint yn anghytuno. Roedd 47% ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu ddim yn gwybod.
- Roedd 90% o ymatebwyr yn cytuno bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae 70% o'r ymatebwyr wrthi'n trafod cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn grwpiau a phartneriaethau maent yn eu mynychu.





Mae'r gwasanaethau iechyd a gofal rwy'n rhyngweithio â nhw yn darparu hyfforddiant i ddatblygu galluoedd digidol gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Mae'r gwasanaethau a'r cynhyrchion digidol a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cynllunio i fod yn hawdd i bawb eu defnyddio.
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal Digidol newydd i Gymru yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar gynhwysiant digidol.
20
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

A ydych yn aelod o unrhyw fyrddau, partneriaethau neu grwpiau lle rydych yn trafod cynhwysiant digidol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?



# Dadansoddi Cynnwys Dogfennau Strategaeth a Pholisi

- Chwiliwyd drwy ddogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), a sgiliau (digidol).
- Lle'r oedd hynny'n bosibl, defnyddiwyd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a/neu Strategaethau Digidol ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru. Ar adeg cyhoeddi, nid oedd y dogfennau hyn ar gael ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Cynhwysir hefyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Chynllun Strategol a Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Gellir cymharu strategaeth iechyd a gofal digidol flaenorol Llywodraeth Cymru o 2015 â fersiwn 2023 ac mae'n dangos cynnydd mewn ymwybyddiaeth o faterion cynhwysiant digidol.
- Ar gyfer byrddau iechyd sydd â'r ddwy ddogfen ar gael, mae termau allweddol i'w cael amlaf yn y Strategaeth Ddigidol, yn hytrach nag yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Bydd y broses hon yn cael ei hailadrodd yn y dyfodol ar gyfer Blaenoriaeth 2 er mwyn gallu gwneud cymariaethau pellach.

| | Cynhwysiant Digidol | Allgáu Digidol | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru | Cysylltedd (digidol) | Hygyrchedd (digidol) | Sgiliau (digidol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Gwybodus Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru (2015) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 |
| Strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2023) | 5 | 1 | 0 | 8 | 4 | 40 | 58 |
| | | | | | | | |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023-26 | 4 | 0 | 0 | 2 | 1 | 8 | 15 |
| | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Tymor Canolig Integredig BIP Aneurin Bevan 2022-25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Strategaeth Ddigidol BIP Aneurin Bevan 2019 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 4 |
| | | | | | | | |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig BIP Betsi Cadwaladr 2022-25 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Strategaeth Ddigidol BIP Betsi Cadwaladr 2021-24 | 19 | 7 | 0 | 1 | 0 | 31 | 58 |
| | | | | | | | |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig BIP Caerdydd a'r Fro 2019-22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Strategaeth Ddigidol BIP Caerdydd a'r Fro 2020-25 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 12 |
| | | | | | | | |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig BIP Hywel Dda 2022-25 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Strategaeth Ddigidol BIP Hywel Dda 2020-25 | 8 | 0 | 0 | 1 | 0 | 10 | 19 |
| | | | | | | | |
| Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2022-25 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Strategaeth Ddigidol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | DDIM AR GAEL | | | | | | |
| | | | | | | | |
| Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Cymru 2022-27 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 3 |
| Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 4 |

# Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos – Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd ac Ap GIG Cymru**

**Joanna Dundon, Arweinydd Digidol Cenedlaethol – Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

**Dywedwch yn gryno wrthyf am eich prosiect / rhaglen**
Mae'r rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP) yn datblygu Ap GIG Cymru fel y drws ffrynt i gleifion a'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth, a rhannu gwybodaeth amdanynt eu hunain a'u hiechyd a'u lles, a bydd yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd a thrydydd sector ac adnoddau eraill. Mae'n ymwneud mewn gwirionedd â'ch grymuso i fod yn gyfrifol am eich iechyd a'ch gofal.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 2 o'r <u>'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad'</u> ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**
<u>Canlyniad 1: Mae pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd ac yn cefnogi cleifion a gofalwyr i gael mynediad at adnoddau digidol, sgiliau a hyder.</u>
Mae DSPP eisiau gwneud yn siŵr bod cleifion yn deall bod hyn yn canolbwyntio arnyn nhw a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r adnodd digidol hwn. Mae'n bwysig iawn cael y persbectif cynhwysiant digidol hwnnw yn y gwaith sy'n cael ei wneud, a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei gynnwys. Mae yna Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl, gan gynnwys Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a Chymunedau Digidol Cymru ac arweinwyr cynhwysiant digidol o sefydliadau Cymreig. Mae DSPP yn ymgysylltu â chynifer o bobl â phosibl i sicrhau ei fod yn hyrwyddo'r ddealltwriaeth honno ond hefyd bod y sefydliad ei hun yn deall pa mor bwysig yw cynhwysiant digidol o'u safbwynt nhw i weithiwr iechyd a gofal proffesiynol allu cefnogi cleifion a'r cyhoedd. Mae'r rhaglen yn gwerthfawrogi mewnbwn gan ddefnyddwyr ac yn datblygu Panel Ymchwil Defnyddwyr a fydd yn rhoi adborth ar nodweddion, syniadau neu wasanaethau newydd sy'n cael eu datblygu ar gyfer Ap GIG Cymru, yn ogystal â gwasanaethau digidol eraill sy'n delio â chleifion.

<u>Canlyniad 2: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau digidol gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, fel y gall pobl gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol mewn gwasanaethau digidol a chefnogi cleifion i wneud hynny hefyd.</u>
Mae DSPP yn cynnal arolwg cynhwysiant digidol ar gyfer cleifion a'r cyhoedd ac yn datblygu ail un ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal yn GIG Cymru a sefydliadau trydydd sector, i gasglu data pellach am alluoedd digidol pobl yng Nghymru. Mae wedi ymgysylltu â Chymunedau Digidol Cymru i gynnal sesiynau hyfforddi ar ap GIG Cymru, nid yn unig i gefnogi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol i ddefnyddio'r ap, ond hefyd fel y gallant gefnogi cleifion i ddefnyddio'r ap. Mae DSPP hefyd yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gysylltu â'u fframwaith galluoedd digidol e-ddysgu.

Canlyniad 3: Bod mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn ofynnol i bob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi mewn iechyd digidol. Mae'r holl wasanaethau a chynnyrch digidol yn cael eu dylunio gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu neu egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, er mwyn bodloni safonau hygyrchedd ac anghenion dinasyddion Cymru a'n gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.
Sefydlwyd y rhaglen DSPP gyda mandad i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn rhan o ddyluniad Ap GIG Cymru. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio i greu Canolfan Ragoriaeth dros Ddylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr fel bod yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio ar draws y sefydliad cyfan, yn yr holl gynhyrchion maent yn eu cynhyrchu.

Canlyniad 4: Cyhoeddi'r Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru, gyda phwyslais ar gynhwysiant digidol ac sy'n cefnogi'r canlyniadau a argymhellir yn y Canllaw Cynhwysiant Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru 2019.
Chwaraeodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ran bwysig wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru ac mae'n hanfodol cefnogi canlyniadau'r Strategaeth honno. Rydym yn ffodus yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru mai ein Prif Weithredwr yw'r Arweinydd Gweithredol dros Gynhwysiant Digidol yn y sefydliad, ac mae'n cadeirio Gweithgor Cynhwysiant Digidol a fydd yn cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt o Gynllun Gweithredu'r Siarter Cynhwysiant Digidol a gymeradwywyd.

**Sut mae bod yn rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Yn yr ystafelloedd trafod mae gennych chi amrywiaeth o bobl yn siarad am eu profiadau eu hunain a'u meysydd diddordeb eu hunain, a'r rhannu a'r rhwydweithio hynny sydd mor bwysig. Gall pobl gael eu cyfyngu i'w meysydd eu hunain ac mae mor hanfodol ymgysylltu â sectorau eraill, gan rannu syniadau a safbwyntiau, ac mae wedi helpu i gysylltu'r rhaglen DSPP â mwy o gymunedau, gan sicrhau bod yr ap yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gynhwysol.

**Ydych chi'n meddwl bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru?**
Yn ddi-os, mae'r Gynghrair wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar dirwedd ehangach cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal. Mae'r cysylltiadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn parhau y tu allan i'r Gynghrair ac fe'i crybwyllir yn ein cyfarfodydd fel awgrym ar sut i wella datblygiad gwasanaethau eraill.

**Astudiaeth Achos – MSc Arwain Trawsnewid Digidol**

**Simon Read, Uwch Ddarlithydd mewn Arwain Trawsnewid Digidol, Cyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru**

**Dywedwch yn gryno wrthyf am eich prosiect / rhaglen**
Mae Prifysgol De Cymru yn rhedeg MSc mewn Arwain Trawsnewid Digidol. Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at arweinwyr y sector cyhoeddus a gall eu cwrs gael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru os ydynt yn dod o'r sector iechyd. Mae'r cwrs yn helpu myfyrwyr i ddod yn arweinwyr â ffocws digidol yn eu sefydliadau. Mae rhan o'r cwrs yn cynnwys ffocws ar gynllunio ar gyfer cynhwysiant digidol mewn prosiectau trawsnewid digidol yn y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys sgwrs gan Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a Chymunedau Digidol Cymru. Mae'n gwrs ymarferol, gyda myfyrwyr yn gorfod dylunio prosiect trawsnewid digidol, a'r bwriad yw cael cwestiynau am gynhwysiant digidol fel rhan o'r asesiad.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 2 o'r 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad' ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**
Canlyniad 1: Mae pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd ac yn cefnogi cleifion a gofalwyr i gael mynediad at adnoddau digidol, sgiliau a hyder.
Mae darparwyr Iechyd a Gofal yn ariannu eu harweinwyr i ddilyn y cwrs hwn, neu'n rhannol ariannu ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru. Gan fod y cwrs hwn yn ymdrin â chynhwysiant digidol mewn trawsnewid digidol, mae hyn yn hybu dealltwriaeth ymhlith arweinwyr yn y sector iechyd a gofal o bwysigrwydd cynhwysiant digidol fel penderfynydd allweddol iechyd.

Canlyniad 2: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau digidol gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, fel y gall pobl gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol mewn gwasanaethau digidol a chefnogi cleifion i wneud hynny hefyd.
Mae'r cwrs MSc yn hyfforddi arweinwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y sgiliau angenrheidiol i arwain prosiectau trawsnewid digidol. Mae rhan o'r cwrs yn canolbwyntio ar gynlluniau cyfathrebu myfyrwyr, sy'n gorfod cynnwys ymgysylltu â staff, gan sicrhau bod y gweithlu'n dod gyda nhw ar y daith o drawsnewid.

Canlyniad 3: Bod mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn ofynnol i bob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi mewn iechyd digidol. Mae'r holl wasanaethau a chynnyrch digidol yn cael eu dylunio gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu neu egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, er mwyn bodloni safonau hygyrchedd ac anghenion dinasyddion Cymru a'n gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.
Mae dau o'r modiwlau yn y cwrs MSc yn cynnwys meddwl am ddylunio a dylunio profiad y defnyddiwr. Nid y strwythur yn unig mohono, nid theori yn unig, ond sut rydych chi'n ymgorffori hynny yn eich prosiect trawsnewid digidol. Bydd cynlluniau i gynnwys cwestiynau ar sut yr ystyriwyd cynhwysiant digidol fel rhan o'r prosiect trawsnewid digidol hefyd yn bwydo i mewn i'r canlyniad hwn.

Canlyniad 4: Cyhoeddi'r Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru, gyda phwyslais ar gynhwysiant digidol ac sy'n cefnogi'r canlyniadau a argymhellir yn y Canllaw Cynhwysiant Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru 2019.
Mae Academïau Dysgu Dwys, y mae'r MSc hwn yn rhan ohonynt, wedi'u hymgorfforі yn y Strategaeth Ddigidol.

**Sut mae bod yn rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Yn draddodiadol mae gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio meddylfryd seilo, a rhan o'r hyn rwyf am i'r MSc hwn ei wneud yw torri'r seilos hynny ac i fyfyrwyr ystyried safbwynt mwy goddrychol. Yng nghyfarfodydd y Gynghrair rydych yn clywed am dlodi data, y Safon Ofynnol ar gyfer Byw'n Ddigidol, y Siarter Cynhwysiant Digidol ac agweddau eraill y mae angen eu hystyried mewn trawsnewid digidol. Mae angen i'r myfyrwyr ddatblygu cynnyrch o werth - beth ydych chi'n mynd i'w greu sy'n ychwanegu gwerth yn y gymuned a'r gymdeithas gyfan - a blaenoriaeth sylfaenol wrth greu'r gwerth hwnnw yw'r hyn a glywch gan y Gynghrair. Os yw prosiect yn mynd yn fyw mae'n rhaid iddynt fyfyrio ar bethau: Sut mae'n hygyrch? Sut mae'n gynhwysol? – ac mae'n ymwneud â datblygu'r straeon arfer da hynny y gallant eu rhannu ac y gallent o bosibl eu rhannu â phobl eraill.

**Ydych chi'n meddwl bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru?**
Mae'r Gynghrair yn codi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy fod yn rhan o'r MSc, gan roi sgwrs ar gynhwysiant digidol ochr yn ochr â Chymunedau Digidol Cymru i garfanau o fyfyrwyr MSc nad ydynt efallai'n aelodau o'r Gynghrair eto, sydd wedyn yn mynd â'r wybodaeth honno yn ôl i'w gweithle ac i brosiectau trawsnewid digidol.

**Astudiaeth Achos – Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Conor Chipp, Cynghorydd Cynhwysiant Digidol, Cymunedau Digidol Cymru**

**Dywedwch yn gryno wrthyf am eich prosiect / rhaglen**
Mae Cymunedau Digidol Cymru (CDC) wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Nod y prosiect yw ysbrydoli gweithgareddau digidol ar gyfer cleifion mewnol, ond hefyd edrych ar ba fath o weithgareddau digidol allai gefnogi pobl pan fyddant yn dod yn gleifion allanol. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau arddangos a gweithdai, gan weithio ochr yn ochr â Staff y GIG a chleifion fel rhan o gyfres o weithdai yn rhaglen Adfer trwy Weithgareddau Caerdydd a'r Fro.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 2 o'r '<u>Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad</u>' ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**
<u>Canlyniad 1: Mae pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd ac yn cefnogi cleifion a gofalwyr i gael mynediad at adnoddau digidol, sgiliau a hyder.</u>
Wrth gydweithio â Chymunedau Digidol Cymru ar y prosiect hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cydnabod y gall cynhwysiant digidol gefnogi pobl â diagnosis iechyd meddwl a bod o fudd i'w hadferiad. Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn wedi cydnabod yr effeithiau cadarnhaol y gall cynhwysiant digidol eu cael ar y cleifion maent yn eu cefnogi.

<u>Canlyniad 2: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau digidol gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, fel y gall pobl gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol mewn gwasanaethau digidol a chefnogi cleifion i wneud hynny hefyd.</u>
Fel rhan o'r prosiect hwn, mae Cymunedau Digidol Cymru wedi gweithio gyda thîm nyrsio Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ar draws dau ysbyty i gynnal Archwiliad Sgiliau Digidol, ac maent eisoes wedi hyfforddi hyrwyddwyr digidol i gefnogi'n fewnol ac maent yn awyddus i gael hyfforddiant pellach.

**Sut mae bod yn rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn fforwm amhrisiadwy ar gyfer rhannu arfer da. Mae'n arddangos prosiectau y gallwch fesur eich hun yn eu herbyn, ac yn rhoi targedau i chi anelu atynt. Mae hefyd yn dda clywed syniad rhywun arall yr ydych yn ei hoffi, a gallwch roi cynnig arno a'i roi ar waith yn eich ymarfer i weld a yw'n gweithio i chi.

**Ydych chi'n meddwl bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru?**
Ydw, yn bendant. Mae ymwybyddiaeth yn gyffredin ar draws Caerdydd nawr ac rwy'n meddwl bod hynny'n bendant yn rhannol oherwydd y Gynghrair a'r rôl mae'n ei chwarae o ran cysylltu'r rhai mae angen cymorth cynhwysiant digidol arnynt. Mae'n cefnogi pobl sy'n newydd i'r holl faes

allgáu digidol a chynhwysiant. Mae'r Gynghrair yn creu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth ddyfnach honno er mwyn i dimau fwrw ymlaen â'u hagenda cynhwysiant digidol.

**Astudiaeth Achos – Get Fit Wales**

**Scott Tandy, Swyddog Cynhwysiant Digidol, Cymdeithas Dai Newydd**

**Dywedwch yn gryno wrthyf am eich prosiect / rhaglen**

Gwefan yw Get Fit Wales sy'n cysylltu â chyfrifwyr camau. Mae'r wefan yn caniatáu i gyfranogwyr gwblhau cyrchoedd a heriau. Po fwyaf anodd yw'r her, y mwyaf o bwyntiau a gaiff cyfranogwyr. Mae'r pwyntiau'n cronni ar fwrdd antur a phob cant o bwyntiau maent yn datgloi gwobr newydd fel ffrwythau, llysiau, neu dalebau cig, pasys campfa, pasys nofio, a gwobrau iechyd a lles eraill. Cyfeirir cyfranogwyr at y wefan trwy bartneriaid y rhaglen a gallant fenthyca cyfrifwyr camau gyda chymorth digidol yn cael ei gynnig i sefydlu'r dyfeisiau a'u cyfrifon ar y wefan.

**Pa rai o'r canlyniadau ar gyfer Blaenoriaeth 2 o'r <u>'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad'</u> ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag ato?**

<u>Canlyniad 1: Mae pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd ac yn cefnogi cleifion a gofalwyr i gael mynediad at adnoddau digidol, sgiliau a hyder.</u>

Mae cynhwysiant digidol yn allweddol i wella iechyd a lles yn y prosiect hwn. Mae cyfranogwyr nad ydynt yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol yn cael eu cefnogi i ddeall eu dyfeisiau a sut i ryngweithio â'r wefan i leihau unrhyw rwystrau i gymryd rhan. Mae partneriaethau gyda darparwyr iechyd a gofal yn hanfodol i lwyddiant y prosiect, gyda byrddau iechyd yn gallu atgyfeirio cleifion a fyddai'n elwa o fwy o weithgarwch corfforol at y cymorth sydd ar gael.

<u>Canlyniad 2: Mae darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau digidol gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, fel y gall pobl gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol mewn gwasanaethau digidol a chefnogi cleifion i wneud hynny hefyd.</u>

Mae partneriaid sy'n atgyfeirio pobl at y rhaglen yn gallu cyrchu porth gweinyddol sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am eu canolwyr. Daeth yn amlwg nad oedd gan rai o'r gweithlu'r sgiliau digidol a'r hyder i gael mynediad at hyn ac mae cymorth wedi'i roi iddynt.

<u>Canlyniad 3: Bod mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn ofynnol i bob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi mewn iechyd digidol. Mae'r holl wasanaethau a chynnyrch digidol yn cael eu dylunio gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu neu egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, er mwyn bodloni safonau hygyrchedd ac anghenion dinasyddion Cymru a'n gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.</u>

Mae Get Fit Wales wedi creu Labordy Profi Get Fit Wales lle gofynnir i gyfranogwyr am eu hadborth ar wahanol swyddogaethau'r wefan, ac ar gyrchoedd a heriau newydd. Mae'r wefan ei hun wedi'i dylunio i fod mor syml â phosibl i'w defnyddio, a defnyddir adborth o'r Labordy Profi i lywio'r dyluniad.

**Sut mae bod yn rhan o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**

Mae'r Gynghrair wedi rhoi cyfle i mi gysylltu â phobl, yn hytrach na dim ond gweithredu ar fy mhen fy hun. Mae gennym ni bartneriaethau newydd ar gyfer Get Fit Wales drwy'r cysylltiadau hynny a gobeithiwn y bydd yn tyfu ymhellach. Weithiau fe allwch chi deimlo eich bod yn naddu'n

ddyfal arno ar eich pen eich hun, ond mae cyfarfod â phobl eraill a rhannu'r hyn rydych chi'n ei wneud a chyfnewid syniadau mor bwysig, a Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yw'r lle i wneud hynny. Gall siarad am elfennau digidol fod yn gysylltydd da ac mae'r ystafelloedd trafod yn wych ar gyfer hynny. Pan fyddaf yn mynd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb eraill, byddaf yn aml yn gweld pobl rwyf wedi cwrdd â nhw yn ystafelloedd trafod y Gynghrair a gallwch weld sut mae'r cyfan yn cysylltu.

**Ydych chi'n meddwl bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol yn fwy cyffredinol ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru?**

Mae pobl yn dechrau siarad â mi am y Gynghrair pan nad ydynt yn gwybod pwy ydw i. Rwy’n mynd i rai digwyddiadau rhwydweithio ac mae pobl yn dweud eu bod yn gweithio ar brosiect digidol ac maen nhw wedi ymuno â’r Gynghrair ac a ydw i’n gwybod amdani? Felly mae pobl yn bendant yn siarad am y Gynghrair ac mae ymwybyddiaeth ohoni wedi cynyddu, sy'n golygu bod ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol yn lledaenu ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales

**Cysylltwch: diaw@cwmpas.coop**

**Dilynwch ni: @DIAWales**

cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being